# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion y Cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13 Gorffennaf 2022 |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod rhithwir |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Darren Millar AS | Cadeirydd ac Aelod Gorllewin Clwyd |
| Jack Sargeant AS | Aelod Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Altaf Hussain AS | Aelod De Orllewin Cymru |
| James Evans AS | Aelod Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| Peter Fox AS | Aelod Sir Fynwy |
| Mark Isherwood AS<br><br>Y Cyrnol James Phillips<br>Y Brigadydd Jock Fraser<br>Y Brigadydd Andrew Dawes<br>Peter Evans<br>Peter Kellam<br>Lisa Rawlings<br><br>Millie Taylor<br><br>Curtis Shea<br>Awyr Lefftenant Ella Fortune<br>Tom Livesey<br>Emma Perrin<br>Emilia Douglass<br>Harry Saville | Aelod Gogledd Cymru<br><br>Comisiynydd Cyn-filwyr Cymru<br>Y Llynges Frenhinol<br>Comander Brigâd 160<br>Llywodraeth Cymru<br>Llywodraeth Cymru<br>Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog<br>Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru (SSCE Cymru)<br>Yr ysgrifenyddiaeth<br>RAF<br>Swyddfa Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig<br>Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin<br>Swyddfa Laura Anne Jones<br>Swyddfa Sam Rowlands |

| | |
|---|---|
| Julian North | Help for Heroes |

## Ymddiheuriadau:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Alun Davies AS | Is-Gadeirydd ac Aelod Blaenau Gwent |
| Laura Anne Jones AS | Aelod De Ddwyrain Cymru |
| Llyr Gruffydd AS<br><br>Comodor yr Awyrlu Dai Williams | Aelod Gogledd Cymru<br><br>Swyddog Awyr Cymru (RAF) |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

2. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

   • Cafodd Darren Millar AS ei ailethol yn unfrydol yn Gadeirydd.
   • Cafodd Alun Davies AS ei ailethol yn unfrydol yn Is-gadeirydd.
   • Cafodd Curtis Shea ei ailethol yn unfrydol yn Ysgrifennydd.

3. Y wybodaeth ddiweddaraf

   • Diolchodd y Cadeirydd y Brigadydd Jock Fraser yn dilyn ymweliad Cynllun Lluoedd Arfog y Senedd â chyfleuster y Llynges Frenhinol yn Nhalybont. Diolchodd y Brigadydd Jock Fraser i'r aelodau a fu ar yr ymweliad a nododd fod yr hyfforddwyr yn y cyfleuster yn ddiolchgar eu bod wedi rhoi o'u hamser i fynd yno.

   • Rhoddodd y Cadeirydd deyrnged i Janet a Cerys sy'n gadael tîm y lluoedd Arfog yn Llywodraeth Cymru.

4. Blaenraglen waith

   • Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r grŵp fod pwyllgor gwaith y Grŵp Trawsbleidiol wedi cyfarfod a chytuno ar flaenraglen waith i lywio gwaith y grŵp tan fis Mai 2026.

   • Anogwyd yr aelodau i roi adborth ar y rhaglen drwy gysylltu ag Ysgrifennydd y grŵp.

5. Cyflwyniad a sesiwn holi ac ateb gyda'r Cyrnol James Phillips, Comisiynydd Cyn-filwyr Cymru (y Comisiynydd)

• Croesawodd y Cadeirydd y Comisiynydd i'r cyfarfod gan ddiolch iddo am ddod i siarad â'r grŵp.

• Siaradodd y Cyrnol James Phillips am ei gefndir a’r gwaith yr oedd wedi bod yn ei wneud yn y chwe wythnos y bu’n cyflawni’r rôl.

• Diolchodd y Comisiynydd Lywodraeth Cymru am weithio gydag ef, gan groesawu perthynas waith gynnes. Hefyd, diolchodd Gymuned ehangach y Lluoedd Arfog yng Nghymru sydd wedi bod yn groesawgar.

• Defnyddir y 100 diwrnod cyntaf yn y swydd fel cyfnod canfod ffeithiau. Hyd yn hyn, nodwyd materion ynghylch gwasanaethau pontio.

• Atebodd y Comisiynydd gwestiynau am gefnogi awdurdodau lleol i gyrraedd safon 'Aur' Cyfamod y Lluoedd Arfog, a chydweithio â Llywodraeth Cymru a Gweinidogion.

6. Diweddariad gan Millie Taylor, SSCE Cymru

• Rhoddodd Millie Taylor ddiweddariad i’r grŵp ar y prosiect Ysgolion sy’n Cefnogi'r Lluoedd Arfog. Nod y prosiect yw creu amgylchedd cadarnhaol i blant y Lluoedd Arfog rannu eu profiad ac annog ysgolion i ymwneud yn fwy â chymuned y Lluoedd Arfog.

• Bydd y prosiect yn annog ysgolion i ddewis hyrwyddwyr ar gyfer plant y Lluoedd Arfog o blith y disgyblion, datblygu dealltwriaeth o anghenion unigryw plant y Lluoedd Arfog ac ymgysylltu ag SSCE Cymru a Chymuned y Lluoedd Arfog. Mae tair lefel o wobr ar gael, sef Efydd, Arian ac Aur.

• Mae 10 o ysgolion eisoes wedi gwneud cais am y wobr, a gwelwyd cryn amrywiaeth o ran nifer y disgyblion sy’n blant y Lluoedd Arfog. Mae lefel yr ymgysylltiad wedi bod yn galonogol.

• Cytunwyd i ychwanegu addysg fel pwnc at flaenraglen waith y grŵp.

7. Unrhyw fater arall

• Diolchodd Darren bawb a oedd yn bresennol a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gydweithio â'r grŵp wrth symud ymlaen.

• Rhannwyd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol â'r grŵp.